Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@ LlandrilloMenai

# Gwybodaeth Bwysig i Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid



GLLM.AC.UK



# Croeso

**Rydym yn credu mewn meithrin potensial pob dysgwr i gael dyfodol llwyddiannu**

Yn y coleg rydym yn rhoi blaenoriaeth i greu amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Trwy gyfathrebu'n agored â rhieni a darparu gwybodaeth reolaidd ar gynnydd dysgwyr, rydym yn sicrhau eich bod yn cael gwybod popeth sydd ei angen arnoch am daith academaidd eich plentyn.

Credwn fod cydweithrediad rhwng rhieni, dysgwyr a chymuned y coleg yn bwysig, a'n bod yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau'r profiadau gorau posibl ar gyfer addysg a thwf personol eich plentyn.

Diolch i chi am ein hystyried ni ar gyfer taith addysgol eich plentyn. Gyda'n gilydd, gadewch i ni ei roi ar lwybr clir i lwyddiant.

## Cenhadaeth

**Gwella Dyfodol Pobl**

# Cynnwys


3 Ein Disgwyliadau a'n Gwerthoedd
4 Beth Allwch Chi ei Wneud i Helpu
5 Beth sy'n Rhan o Raglen Astudio Lawn Amser?

**Pam Dewis Dod i'r Coleg?**

6 Addysg o Ansawdd Uchel
7 Canlyniadau Rhagorol
8-9 Cyfleusterau Penigamp
10 Cymorth i Ddysgwyr
11 Cyllid Myfyrwyr a Chludiant Myfyrwyr
12 Rhagor o Wybodaeth

# Ein Disgwyliadau a'n Gwerthoedd

## Gwerthoedd

**Ein nod yw sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael eu trin â pharch a'n bod yn eu harfogi â'r sgiliau a'r rhinweddau i lwyddo mewn bywyd. Mae ein gwerthoedd yn y coleg yn seiliedig ar:**

- Cydraddoldeb
- Ymddiriedaeth
- Tegwch
- Gonestrwydd
- Uchelgais

Ac rydym yn disgwyl y bydd ein dysgwyr yn:

- Trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr â pharch a chwrteisi
- Parchu a dathlu amrywiaeth
- Ymfalchïo yn niwylliant ac iaith Cymru
- Lleisio eu barn a chymryd rhan yn eu cymunedau
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o ran addysg a hyfforddiant a ddarperir ar eu cyfer
- Ymgyrraedd at y safonau uchaf
- Ymddwyn yn gyfrifol, gan barchu eu lles a'u diogelwch eu hunain ac eraill
- Parchu'r amgylchedd a'r adnoddau a ddarperir ar eu cyfer
- Cydweithio'n effeithiol ac yn broffesiynol â'u cyd-ddysgwyr
- Ymdrechu i fagu hyder a meithrin sgiliau cyflogadwyedd



## Safonau a Disgwyliadau

**Rydym bob amser y pwysleisio pwysigrwydd ymddygiad proffesiynol ymhlith ein dysgwyr, a rhaid iddynt i gyd:**

- Fod â phresenoldeb a phrydlondeb rhagorol
- Gwisgo eu laniardau adnabod bob amser - mae'r rhain yn helpu i gadw ein campysau'n ddiogel
- Cadw'r safonau a ddisgwylir mewn dosbarthiadau a gweithdai, e.e. gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE)
- Parchu ei gilydd a'r gymuned leol
- Ymddwyn yn broffesiynol ar y campws

Rydym o ddifri ynghylch ein cyfrifoldeb i ddatblygu dysgwyr i fod yn 'ddinasyddion da', yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach.

# Beth Allwch Chi ei Wneud i Helpu




**Dyma restr o bethau y gallwch chi eu gwneud a fydd yn helpu i gefnogi cynnydd eich plentyn ac yn sicrhau ei fod yn llwyddo yn y coleg.**

- **Sicrhau bod eich plentyn yn mynd i'r sesiynau cynefino**
  Bydd y dysgwyr i gyd yn cael gwybod pa ddiwrnodau y bydd eu sesiynau cynefino'n digwydd – gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn mynd i'r rhain. Mae'r sesiynau cynefino'n rhoi gwybodaeth bwysig i'r dysgwyr am eu cwrs a dechrau yn y coleg.
- **Annog presenoldeb rhagorol**
  Gwyddom fod y dysgwyr hynny sydd â phresenoldeb da yn mynd ymlaen i gael gwell canlyniadau.
- **Annog eich plentyn i wisgo ei laniard**
  Rhaid i ddysgwyr, aelodau staff ac ymwelwyr wisgo eu laniardau ar y campws. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein campysau yn amgylcheddau dysgu diogel.
- **Sicrhau bod eich plentyn yn gwneud ei waith cartref**
  Yn ystod ei gwrs mae pob dysgwr yn cael gwaith cartref rheolaidd.
- **Dod i'r nosweithiau rhieni**
  Byddwch yn cael eich gwahodd i nosweithiau rhieni lle byddwn yn gweithio'n agos gyda chi i wneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen yn y coleg.
- **Gwirio a yw'ch plentyn yn gymwys i gael cymorth ariannol**
  Yn dibynnu ar incwm eich cartref, gallai eich plentyn fod yn gymwys i gael cymorth ariannol.
- **Dathlu cyflawniadau a llwyddiannau eich plentyn**
  Yn ogystal ag ennill cymwysterau, mae ein dysgwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol. Dathlwch eu llwyddiannau gyda nhw.



# Beth sy'n Rhan o Raglen Astudio Lawn Amser?

**Beth bynnag yw'ch nod ar gyfer dyfodol eich plentyn, mae gennym gwrs a fydd at ei ddant. Yn ogystal â chwricwlwm Safon Uwch eang, mae gennym hefyd ddewis helaeth o gyrsiau galwedigaethol mewn dros 25 maes pwnc.**

Ar ben hyn, bydd eich plentyn yn datblygu sgiliau cyfathrebu a rheoli amser a sgiliau sy'n gysylltiedig â meithrin annibyniaeth, gwaith tîm, sgiliau cymdeithasol a phrofiad gwaith fel ei fod yn barod am fyd gwaith neu addysg uwch pan fydd yn gadael y coleg.

Mae rhaglen astudio pob dysgwr wedi'i theilwra i'w anghenion unigol er mwyn ei helpu i gyflawni ei nodau addysgol a gyrfaol. Bydd pob rhaglen astudio'n seiliedig ar y cymwysterau mynediad cychwynnol ac yn dangos llwybr clir i sut y gall pob dysgwr symud ymlaen o'r coleg i gyflogaeth.




## Ochr yn ochr â'i gwrs llawn amser, bydd eich plentyn hefyd yn astudio:

**Saesneg/Cymraeg a Mathemateg:**
Os na lwyddodd eich plentyn i sicrhau TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg/Rhifedd a/neu Gymraeg/Saesneg, rydym yn cefnogi dysgwyr i ailsefyll y pynciau hyn yn rhan o'u rhaglen astudio.

Ond, gan y bydd ailsefyll y cymwysterau TGAU hyn yn dreth ychwanegol ar eu hamser, bydd o fantais iddynt wneud eu gorau glas i gael graddau da'r tro cyntaf y byddant yn eu sefyll. Beth bynnag yw eu canlyniadau TGAU, bydd disgwyl i'r holl ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau rhifedd a llythrennedd. Bydd cyfleoedd i wneud hyn yn rhan annatod o dasgau aseiniad cyrsiau, yn ogystal â phrofiad gwaith a gweithgareddau eraill. Yn achos llawer o gyrsiau, rydym yn gofyn am nifer penodol o TGAU gradd A*-C a gorau oll os ydynt yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg.

**Sgiliau Digidol a Sgiliau Cyflogadwyedd:**
Os yw'ch plentyn wedi sicrhau TGAU mewn Mathemateg a/neu Gymraeg/Saesneg pan fydd yn dechrau yn y coleg, bydd yn cwblhau cymhwyster Llythrennedd Digidol a/neu Cyflogadwyedd yn rhan o'i raglen astudio.

**Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch:**
Mae'r cymhwyster newydd ac arloesol hwn wedi'i raddio A*-E ac yn cynnwys yr un pwyntiau UCAS â Lefel A ychwanegol.

Mae'r cwrs yn helpu eich plentyn i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy hanfodol i'w gefnogi i ddod yn ddinesydd effeithiol, cyfrifol a gweithgar. Mae prifysgolion a chyflogwyr yn ei ystyried yn gymhwyster gwerthfawr. Yn rhan o'r cymhwyster, bydd yn dysgu am Ddinasyddiaeth Fyd-eang, yn ymgysylltu â'r gymuned, yn gweithio ar ei lwybr gyrfa a'i gyrchfan nesaf ac yn cwblhau Prosiect Ymchwil Unigol ar bwnc o'i ddewis.

# PAM DEWIS DOD I'R COLEG?



## Addysg o Ansawdd Uchel

**Addysg eich plentyn yw ein blaenoriaeth.**

Mae ein tiwtoriaid profiadol a brwdfrydig wedi ymroi i ddarparu addysg o ansawdd uchel sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a geir mewn gwerslyfrau. Rydym yn ymdrechu i ysbrydoli, herio, ac ennyn diddordeb dysgwyr drwy gynnig profiadau dysgu deinamig.

Mae ein tiwtoriaid yn arbenigwyr yn eu meysydd ac yn dod â gwybodaeth am ddiwydiant i'r ystafell ddosbarth – gan baratoi ein dysgwyr at fyd gwaith.

Drwy ddewis dod i'r coleg i astudio caiff eich plentyn fynediad at ystod eang o gyrsiau, offer ac adnoddau arbenigol, a darlithwyr ymroddgar sydd â phrofiad proffesiynol yn eu maes.

## Cyfleoedd i Gyfoethogi Profiadau Dysgwyr

**Rydym yn sylweddoli nad yn yr ystafell ddosbarth yn unig y mae dysgu'n digwydd, felly mae gennym raglen amrywiol i gyfoethogi profiadau dysgwyr mewn meysydd allweddol fel cydraddoldeb, materion amgylcheddol, cadw'n ddiogel, iechyd a ffitrwydd a sut i ofalu am ein hiechyd meddwl.**

Cynhelir gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn ac fe'u cefnogir gan ein hundeb myfyrwyr sydd wedi ennill gwobrau am ei waith ac sy'n gweithio gyda ni i lunio'r rhaglen gyfoethogi ac i annog cyfranogiad.

Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn amrywiol chwaraeon, am hwyl neu'n gystadleuol, yn ogystal â nifer o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn academaidd a fydd yn cyfoethogi eu profiadau.

Gall y gweithgareddau hyn eu helpu i feithrin annibyniaeth, sgiliau ymdrin â phobl, hyder a rhoi profiad gwerthfawr iddynt o fywyd.

## Tiwtor Personol

**Mae gan bob dysgwr diwtor personol ymroddedig sy'n goruchwylio ei raglen gyfan ac yn cysylltu â rhieni drwy gydol y flwyddyn academaidd.**

Cynhelir nosweithiau rhieni rheolaidd, cysylltir â chi dros y ffôn a rhennir y wybodaeth ddiweddaraf ar ein porth ar-lein i ddysgwyr.

# Canlyniadau Rhagorol

**Bob blwyddyn, bydd ein dysgwyr yn cael canlyniadau rhagorol ac yn dewis un ai parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgol neu fynd ymlaen i fyd gwaith.**

O feddygon i bobl fusnes, mae llawer o'n dysgwyr wedi mynd ymlaen i gael llwyddiannau rhyfeddol mewn amrywiol feysydd.

Rydym yn hynod falch o'r ffordd mae'r coleg yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau dyfodol disglair i'n myfyrwyr.

Yn 2025, roedd cyfradd llwyddo ein dysgwyr Safon Uwch yn 99% ac aeth llawer ohonynt ymlaen i astudio ym mhrifysgolion Caergrawnt a Rhydychen a phrifysgolion blaenllaw eraill sy'n perthyn i Grŵp Russell.

Mae ein prentisiaid wedi ennill llu o wobrau nodedig sy'n cynnwys gwobr 'Prentis y Flwyddyn' Redrow a 'Medal Ragoriaeth' yn rownd derfynol cystadleuaeth WorldSkills. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yng nghystadlaethau WorldSkills ac athletwyr talentog o'r academïau wedi mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ar lefel ryngwladol.



## Llwyddiannau Dysgwyr



Ar ddiwedd ei chwrs yn y coleg cafodd **Arian Williams**, Dysgwr y Flwyddyn Coleg Menai, gwahaniaeth triphlyg mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Arian yw pencampwr presennol Cymru dros 200 metr a 100 metr, yn ogystal â'r 400 metr dan do, ac fe fydd yn mynd i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd i astudio Troseddeg.

"Rydw i'n falch iawn 'mod i wedi dod i astudio yng Ngholeg Menai oherwydd dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi cael cymaint o gefnogaeth mewn ysgol neu goleg arall."



Cafodd **Noah Stanway** A* mewn Mathemateg, A* mewn Mathemateg Bellach ac A mewn Seicoleg. Mae'n mynd i Brifysgol Caerhirfryn i ddilyn cwrs gradd Meistr mewn Mathemateg ac Ystadegaeth fydd yn cynnwys blwyddyn yn astudio dramor yn un ai'r Unol Daleithiau, Canada neu Seland Newydd.

Meddai Noah, "Dw i ar ben fy nigon efo fy nghanlyniadau! Mae'r coleg wedi bod yn wych, ac yn newid braf ar ôl bod yn yr ysgol. Mae'r tiwtoriaid wedi bod yn ardderchog."



Ar ôl cael ei ddewis o blith dros 1,000 o ymgeiswyr, mae **Tomos Jones** ar ei ffordd i gymhwyso'n beirianydd cynnal a chadw awyrennau ac wedi cael cytundeb pedair blynedd yn gweithio i Ryanair ym maes awyr Stanstead.

Dilynodd gwrs Lefel 3 mewn Peirianneg Gyffredinol Uwch ar gampws Hafan ym Mhwllheli, ei dref enedigol. Roedd 16 elfen i'r cwrs, ac fe wnaeth hefyd gwblhau cymhwyster Bagloriaeth Cymru, uned ymarferol yn y gweithdy a 150 awr o brofiad gwaith.


CHWECHED
Menai
SIXTH

# Cyfleusterau Penigamp

**Bydd eich plentyn yn elwa ar gyfleusterau o'r radd flaenaf sydd ddim ond ar gael yma yn y coleg.**

Ymhlith ein buddsoddiadau diweddar mae canolfan chwaraeon newydd gwerth £7m ar ein campws yn Llangefni a chanolfan beirianneg gwerth £13m ar gampws y Rhyl. Ond dim ond cyfran fechan o'n buddsoddiad yw hyn i sicrhau bod gan y coleg rai o'r cyfleusterau gorau yng Nghymru.

O ystafelloedd realiti rhithwir i salonau harddwch, mae ein safleoedd yn cynnig yr offer diweddaraf sydd o'r un safon ag a geir mewn diwydiant. Bydd hyn yn rhoi profiad i'ch plentyn o'r byd go iawn ac yn ei baratoi ar gyfer cael gyrfa.

## Labordai Gwyddoniaeth

### Campysau Dolgellau a Phwllheli



Mae ein labordai gwyddoniaeth gwerth £2m ar safleoedd Dolgellau a Phwllheli wedi cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio gyda'r dechnoleg ddiweddaraf.

## Canolfan Beirianneg

### Campws y Rhyl



Mae Canolfan Beirianneg £13m y Rhyl yn gyfleuster tri llawr o'r radd flaenaf sy'n cynnwys yr offer hyfforddi arbenigol diweddaraf. O roboteg a pheiriannau prototeipio cyflym i beiriannau torri metel diwydiannol mawr a reolir gan gyfrifiaduron, mae'r ganolfan wedi'i chynllunio i ddarparu profiadau dysgu na ellir eu curo.

Elfen allweddol o'r datblygiad trawsnewidiol hwn yw'r cyfleuster hyfforddi ym maes technoleg ynni adnewyddadwy, sy'n bartneriaeth ar y cyd â RWE Renewables, cwmni rhyngwladol sy'n adnabyddus am reoli nifer o safleoedd ynni adnewyddadwy ledled y DU.

## Canolfan Chwaraeon

### Campws Llangefni



Mae Canolfan Chwaraeon £7m Llangefni'n cynnwys neuadd chwaraeon, campfa a stiwdio fawr, cyfleusterau newid, ystafelloedd dosbarth a labordai lle ceir y dechnoleg a'r offer diweddaraf ar gyfer monitro perfformiad a rhagoriaeth ym maes chwaraeon.



# Cymorth i Ddysgwyr

**Yma yn y coleg, rydym yn deall pwysigrwydd cefnogaeth, ac mae gennym dîm pwrpasol sydd wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd cefnogol i bob dysgwr.**

Dyfarnodd arolygiad diwethaf y llywodraeth bod safon y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a roddwn i ddysgwyr yn 'rhagorol' – felly gallwch fod yn dawel eich meddwl y caiff eich plentyn bob gofal yn y coleg.

O gymorth academaidd i ddatblygiad personol, rydyn ni yma i'n dysgwyr bob cam o'r ffordd.

## Tîm y Gwasanaethau i Ddysgwyr

Pa gampws bynnag y bydd eich plentyn yn ei fynychu, bydd y Tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr yn siop un stop i gael gwybodaeth am bob math o faterion:

- Cyngor ynghylch gwneud cais am gyrsiau a gofynion mynediad
- Ffioedd a chyllid
- Cyngor gyrfaol
- Cyfleoedd o ran gwaith a lleoliadau gwaith i raddedigion
- Iechyd a lles
- Ceisiadau UCAS
- Cludiant

## Llesiant a Lles

Rydym yn darparu cymorth llesiant a lles a gwasanaeth cyfeirio ac atgyfeirio at asiantaethau allanol arbenigol. Mae'r Gwasanaethau i Ddysgwyr yn cynnig cymorth ynghylch ystod o faterion, gan gynnwys:

- Iechyd a llesiant
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Mentora
- Cwnsela tymor byr
- Mae cymorth Diogelu personol a chyfrinachol ar gael i Ofalwyr Ifanc, Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal.

## Llyfrgell a Mwy

Mae ein gwasanaethau Llyfrgell a Mwy yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau, cefnogaeth ac adnoddau i ddysgwyr. Ochr yn ochr â dewis helaeth o ddeunyddiau darllen i gefnogi eu hastudiaethau, gall dysgwyr gael mynediad hefyd at offer dysgu digidol fel Google Chromebooks. Yn ogystal, mae staff profiadol wrth law i gefnogi dysgwyr gyda sgiliau astudio, ac i gynnig cymorth gydag aseiniadau a pharatoadau ar gyfer arholiadau.

LLYFRGELL LIBRARY

## Cymorth Dysgu

Mae gan y coleg staff arbenigol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gan weithio gyda chi, byddwn yn datblygu cynllun fydd yn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y coleg ac yn llwyddo i ennill eu cymhwyster. Gall y cymorth fod ar ffurf:

- Cymorth un i un
- Cefnogaeth dechnegol
- Asesiadau risg
- Cynlluniau gofal
- Sgiliau astudio
- Addasu amodau arholiad

# Cyllid Dysgwyr a Chludiant Dysgwyr



## Cymorth Ariannol

Fe all cymorth ariannol fod ar gael i helpu eich plentyn i dalu am ei astudiaethau. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallai eich plentyn fod yn gymwys i gael cymorth ariannol i astudio. Mae gennym dîm o gynghorwyr a fydd yn gallu eich tywys trwy'r manylion. Gall y cymorth ariannol sydd ar gael gynnwys:

### Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Os yw'ch plentyn rhwng 16 a 18 oed ac yn dilyn cwrs am fwy na 12 awr yr wythnos, mae'n bosibl y gall gael £40 yr wythnos. Mae'r LCA yn ddibynnol ar brawf modd, felly gofynnwch i dîm y Gwasanaethau i Ddysgwyr am ragor o wybodaeth.



### Cronfa Cefnogi Dysgwyr

Ydych chi angen arian tuag at gostau dillad gwaith, offer neu ofal plant?

Mae'r Gronfa Cefnogi Dysgwyr yn darparu cymorth ariannol i ddysgwyr llawn amser sy'n ei chael hi'n anodd talu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'u cwrs. Gall y gronfa hon eich helpu i dalu costau archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, llety mewn hostel, dillad gwaith, citiau, cyfarpar, ffioedd stiwdio, tripiau, teithio i'r coleg a gofal plant. Gall staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr roi cyngor a gwybodaeth am ba gymorth ariannol a allai fod ar gael i chi.

### Lwfans Dyddiol ar gyfer Pryd Bwyd

Mae'r Lwfans Dyddiol ar gyfer Pryd Bwyd ar gael i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed a oedd yn derbyn Cinio Ysgol am Ddim ac sydd wedi cofrestru ar raglen llawn amser. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr.



# RHAGOR O WYBODAETH

**Mae tîm ein Gwasanaethau i Ddysgwyr yma i roi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad i'ch plentyn a hefyd i ateb cwestiynau gan rieni/gwarcheidwaid.**

## Digwyddiadau Agored

Rydym yn cynnal digwyddiadau agored trwy gydol y flwyddyn lle cewch chi a'ch plentyn ymweld â'n campysau a siarad â'n staff cyfeillgar am eich dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y dyddiadau a'r amseroedd, ewch i'n gwefan:
**www.gllm.ac.uk/digwyddiadau**

## Cysylltwch â Ni

Os oes angen cymorth arnoch gyda chais eich plentyn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am gyrsiau neu gyllid, mae croeso i chi gysylltu â thîm ein Gwasanaethau i Ddysgwyr:

**Coleg Llandrillo**

Llandrillo-yn-Rhos: 01492 542 338
Y Rhyl: 01745 354 797

**Coleg Menai**

Bangor: 01248 370 125
Llangefni: 01248 383 348

**Coleg Meirion-Dwyfor**

Dolgellau: 01341 422 827
Pwllheli: 01758 701 385

**Coleg Glynllifon:** 01286 830 261

